



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Dyfodol gweithgynhyrchu i Gymru: fframwaith gweithredu

Sut dylem weithio gyda diwydiant, yr undebau llafur a'r byd academaidd i ddiogelu gweithgynhyrchu yng Nghymru at y dyfodol?

Chwefror 2021

Cyflwyniad

Roedd yr ymgynghoriad '[Dyfodol gweithgynhyrchu i Gymru: fframwaith gweithredu](#)' ar agor rhwng 21 Medi a 19 Hydref 2020 i geisio barn ar y cynllun gweithgynhyrchu arfaethedig, a'r camau y mae angen i lywodraeth, diwydiant, yr undebau llafur a'r byd academaidd eu cymryd.

Gofynnwyd i'r cyhoedd gyflwyno eu barn ynghylch pedwar cwestiwn allweddol, a rhoi sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig nad oeddent wedi cael sylw penodol.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd gweithdai ar-lein hefyd, a gynhaliwyd gan adrannau rhanbarthol Llywodraeth Cymru a fforymau diwydiant.

Mae'r holl ymatebion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru; mae'r canlynol yn grynodedb sy'n mynd i'r afael â'r cwestiynau a ofynnwyd, ac yn cynnwys awgrymiadau y gellir eu datblygu wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen.

C1: Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o weithgynhyrchu uchel ei werth fel y mae'n cael ei ddisgrifio, a'i bwysigrwydd o ran diogelu'r sector at y dyfodol?

At ei gilydd cytunodd ymatebwyr â'r diffiniad, ond nodwyd y canlynol:

- Mae angen i SERO NET erbyn 2040/50 fod yn gryfach.
- Mae'r diffiniad yn nodi effeithiau 'gweithgareddau' ond nid yw'n nodi'r gweithgareddau eu hunain yn ddigonol.
- Ar gyfer rhai is-sectorau, gwasanaethau yw eu prif amcan busnes, yn hytrach na chynhyrchu nwyddau ffisegol neu ddarparu gwasanaethau ar gyfer y sector gweithgynhyrchu. Dylid newid y disgrifiad i 'ecosystem weithgynhyrchu'.
- Ni ddylai'r diffiniad arwain at allgáu prosiectau neu feysydd arloesol a allai ddod yn uchel eu gwerth yn y pen draw.
- Mae angen i ddiffiniad clir nodi a yw gwneud cynnyrch yng Nghymru yn ymarferol ac yn hyfyw – o safbwynt economaidd, cadernid, cadwyni cyflenwi, y gymdeithas a sgiliau.

C2: Ydych chi'n cytuno â'r themâu a nodwyd, y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt er mwyn helpu i ddiogelu'r sector at y dyfodol?

At ei gilydd cytunwyd ar y themâu a nodwyd, ond cafodd y materion canlynol eu codi:

- Gallai rhaglenni sector cyhoeddus fod yn thema ar wahân.
- Dylai pob sector a ariennir gan y Llywodraeth adrodd ar gynnwys lleol.
- Dylid cynyddu'r defnydd o asesiadau cylch bywyd i edrych ar gyfrifoldeb cynhyrchwyr a defnydd cynaliadwy.

- Mae angen inni ystyried dulliau fel dulliau adeiladu modern o gynhyrchu oddi ar y safle ar gyfer deunyddiau fel pren Cymru i annog arloesi a datblygu sgiliau.
- Mae angen inni ystyried cyfleusterau gweithgynhyrchu yn Lloegr sy'n cyflenwi cwmnïau adeiladu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru, ac ystyried cyfleoedd ar gyfer cwmnïau gweithgynhyrchu o Gymru.
- Dylai fod thema benodol ar gyfer marchnadoedd sy'n newid/diflannu o ganlyniad i adael yr UE.
- Mae angen inni ystyried gwerthu a hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol.
- Dylem roi sylw i'r agenda lefelu ledled Cymru ac ystyried creu busnesau gweithgynhyrchu uchel eu gwerth drwy greu is-gwmnïau sy'n deillio o ddiwydiant, sefydliadau addysg uwch a/neu ganolfannau technoleg.
- Mae angen inni fynd i'r afael â phroblemau fel gwaith ansicr: llwybrau gyrfa sy'n cael eu disodli pan fydd gwaith yn cael ei roi i gontractwyr, a defnyddio gormod o weithwyr asiantaeth sy'n dad-sgilio gwaith.

C3: Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a gynigir, ac a oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ychwanegol ynghylch sut gellir cyflawni'r ymrwymadau yn y cynllun?

Yn gyffredinol bu cytundeb ar y camau gweithredu a gynigiwyd, ond nodwyd y canlynol:

- Rhaid i gymorth gan y Llywodraeth gael ei ddefnyddio'n bennaf yng Nghymru.
- Dylem adeiladu porth agored ond diogel i gysylltu sefydliadau yng Nghymru, er mwyn rhannu problemau ac atebion.
- Dylai cadernid seiber fod yn rhan o Gadernid y Gadwyn Gyflenwi.
- Rhaid i ddulliau addysgu ganolbwyntio ar ddefnyddio rhesymeg, gwaith tîm a sgiliau meddal er mwyn paratoi myfyrwyr ar gyfer y gweithle, a gallai'r Llywodraeth gefnogi cyrsiau rhyngosod drwy gyfrannu at gostau yn ystod blwyddyn yn y diwydiant.
- Nid yw hen ffatrioedd yn effeithlon o ran ynni, ac mae angen grantiau gwella sy'n canolbwyntio ar ynni gwyrdd sy'n effeithlon o ran cost.
- Rhaid i brosiectau mewnfuddsoddi fod â cafeat 'caffael yn lleol' fel amod i'r cymorth. Dylai'r Llywodraeth ddefnyddio swyddfeydd rhyngwladol i nodi sut y dylai cwmnïau symud gwaith ymchwil a datblygu a phenderfyniadau eraill i Gymru
- Mae'r cydweithio rhwng y Llywodraeth, y diwydiant a'r byd academiaidd yn dameidiog ac yn ddryslyd, felly, mae angen inni integreiddio a manteisio i'r eithaf ar y gwahanol raglenni ac ymyriadau.
- Rhaid cael rhagor o fewnbwn gan ddiwydiant cyn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chyfleusterau fel y Ganolfan Ymchwil Deunyddiau Uwch, i sicrhau y gwerthfawrogi y diben/swyddogaeth yn well.

- Mae angen rhagor o glystyrau ar gyfer technolegau newydd a phrosesau sydd eisoes yn bodoli, ac mae angen ailddechrau'r Fenter o fewn Diwylliant Cymru a oedd yn hyrwyddo dysgu/arferion da traws-sector.
- Dylai'r Llywodraeth achredu a chydabod y defnydd o arferion gweithio da.
- Gellid gwella gwiriadau uniondeb/archwiliadau drwy gydol y gadwyn gyflenwi i alluogi caffael moesegol.
- Dylem ddefnyddio cwmnïau Haen 1 i hyfforddi neu rannu hyfforddiant ar gyfer y gadwyn gyflenwi.
- Rhaid ymgorffori egwyddorion a sgiliau arweinyddiaeth yn lefelau sylfaen cwricwla a rhaglenni prentisiaid.
- Gellid gwella cyngor gyrfa i roi syniad gwell o'r swyddi sydd ar gael a'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen.
- Mae ailhyfforddi gweithwyr hŷn yn opsiwn ar gyfer llenwi bylchau sgiliau.
- Gellid gwneud ymgartrefu yng Nghymru yn opsiwn mwy deniadol ar gyfer cwmnïau drwy lacio gofynion cynllunio.
- Dylai pob cwmni fabwysiadu'r dull partneriaeth gymdeithasol ar gyfer cysylltiadau diwydiannol h.y. cynyddu llais y cyflogai/cydnabod yr undebau llafur.
- Dylai pob cyflogai ddilyn y cod caffael moesegol.
- Dylem adolygu'r cymwysterau sydd ar gael a'u mapio â chymwysterau uwch, ac wedyn datblygu cymwysterau perthnasol lle y nodir bylchau, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol, graddau cymhwysol a phrentisiaethau gradd.
- Mae angen inni wella amrywiaeth o ran rhyw a gyrfaedd pobl BAME, yn enwedig mewn swyddi arweinyddiaeth ym maes gweithgynhyrchu.
- Dylem dewis hyrwyddwyr diwydiant/modelau rôl i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa a mewnbynnu i'r gwaith o ddatblygu cwricwla a strategaethau allgymorth.
- Mae angen inni fod yn ymwybodol o'r ymchwil, y sgiliau a'r arloesi sy'n bodoli mewn prifysgolion.
- Mae angen inni ystyried y tirwedd arloesi ehangach – prosiectau diwydiannau cenedlaethol a rhyngwladol a phrosiectau a ariennir drwy Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.
- Dylem gefnogi sefydlu timau arloesi arbenigol o fewn cwmnïau i fynd i'r afael â heriau newydd.

Q4: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai'r cynllun gweithgynhyrchu yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Dylai'r economi gylchol hybu busnes ar gyfer busnesau yng Nghymru, ac felly cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer datblygu'r Gymraeg.

- Os yw gweithgynhyrchu uchel ei werth yn cael ei annog a'i gefnogi mewn sectorau fel amaethyddiaeth, pysgota, coedwigaeth a thecstilau, byddai hyn yn creu cyfleoedd ar gyfer gweithgynhyrchu mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yw'r iaith gyntaf.
- Mae cyfle i greu brand 'Gwnaed yng Nghymru' sy'n defnyddio treftadaeth a diwylliant Cymru a'r Gymraeg i greu gwerth amlwg ac unigryw ar gyfer cwsmeriaid lleol a rhyngwladol, gan arwain at yr argraff ehangach bod rhywbeth wedi cael ei ' greu yng Nghymru'
- Byddai rhoi rhagor o bwyslais ar botensial yn y fioeconomi yn galluogi rhagor o ymwneud ag ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn wasgaredig, lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n ddwysach.

Q5: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Nodwch unrhyw sylwadau ynghylch materion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt:

- Mae angen inni amlinellu'r holl adnoddau adnewyddadwy sydd ar gael.
- Dylem roi manylion mewn perthynas â maint y bwriad i dyfu busnesau lleol, microfusnesau a busnesau bach a chanolig – o'i gymharu â denu mewnffuddsoddi, dyheadau ynghylch maint y sector a'r ffactorau a fydd yn arwain at lwyddiant.
- Mae angen inni gydnabod y rolau mae pob cwmni yn eu chwarae, yn hytrach na dim ond y gadwyn gyflenwi uniongyrchol sy'n cynhyrchu'r nwyddau gorffenedig – gan gynnwys atgyweirio, gwasanaethu, ailgylchu, platfformau digidol, prosesau busnes, gwasanaethau technegol a phroffesiynol, darparwyr hyfforddiant preifat a gwasanaethau datblygu busnes ac arloesi a arweinir gan y diwydiant.
- Mae angen inni ddatblygu canolfannau arloesi i hyrwyddo cydweithio rhwng y diwydiant a phartneriaid allweddol.
- Mae pob rhanbarth yng Nghymru yn wahanol ac iddo fanteision unigryw. Gellir nodi'r rhain drwy ddadansoddiad SWOT/ PESTELE.
- Dylai dulliau addysgu mewn prifysgolion ac ysgolion anelu at osgoi 'ceisio arian ar sail ffigurau'.
- Gallai'r ffaith bod cysylltiadau â Maes Awyr Caerdydd yn wael, a'i fod ac yn anodd ei gyrraedd yn uniongyrchol, ddylanwadu ar benderfynwyr rhyngwladol.
- Mae oediadau trafniadaeth yn arwain at golli gynhyrchiant, aneffeithlonrwydd, atal y llinell gynhyrchu ac argraff wael yn gyffredinol.
- Mae angen gwelliannau sylweddol ac amserol i'r seilwaith cerbydau trydan
- Mae seilwaith adeiladau sydd ar gael yn hawdd yn hanfodol.
- Rhaid cynnwys sgiliau rheoli yn lefelau sylfaenol cwricwla a rhaglenni prentisiaethau, a rhaid eu cynnwys mewn rhaglenni arweinyddiaeth.
- Mae angen dull 'un perchennog' cydgysylltiedig ar gyfer marchnata cymorth gan y Llywodraeth.

- Mae darparwyr ynni/dŵr sydd â monopoli yn ddrud yn gwneud cryn gyfraniad at atal ehangu cyfleusterau presennol.
- Mae angen arnom gwmnïau canolig sy'n gwneud ymchwil ac yn datblygu cynhyrchion yng Nghymru, yng hytrach na changhennau cwmnïau rhyngwladol.
- Mae angen inni adolygu treth gorfforaethol ar gwmnïau gweithgynhyrchu peirianyddol bach.
- Mae angen o leiaf un porthladd/parth rhydd.
- Mae'n rhaid inni edrych ar lwyddiant busnesau byd-eang er mwyn dysgu sut i ddatblygu pobl ac arweinwyr.
- Rhaid edrych ar bolisi a chynllunio er mwyn mynd i'r afael ag anghenion storio, ehangu a digidol a'r gallu i barhau i fod yn hyblyg.